# 4. Herio’r Gwasanaethau Cymdeithasol am wrthod asesu a/neu ddiwallu anghenion gofal a chymorth goroeswyr



Ceir sawl achos o gyrff cyhoeddus - boed y Swyddfa Gartref neu adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol - yn methu â chynnal hawliau mudwyr i gael llety a chymorth. Er enghraifft, ceir achosion lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gwrthod cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth; gwrthod darparu unrhyw gymorth; a/neu wedi cytuno i gynorthwyo plentyn diymgeledd ond nid y fam; gan nodi'n aml y ffaith 'nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael' i'r unigolyn / teulu fel rheswm am hyn. Fel y gwelwyd yn y ddwy adran flaenorol, nid yw hyn yn ddehongliad cywir o'r gyfraith a dylid ei herio.

## Prosiect Protocol Cyn Dwyn Achos (PAP)

Mae Prosiect Protocol Cyn Dwyn Achos (PAP) Deighton Pierce Glynn yn gwneud hyn yn union. Trwy ddarparu **hyfforddiant am ddim ar gyfraith gyhoeddus** a **goruchwylio parhaus gan gyfreithwyr**, y nod yw **adeiladu gallu'r sefydliadau llinell flaen y mae mudwyr wedi troi atynt am gyngor a chymorth**.

Syniad y prosiect yw bod y gweithwyr llinell flaen, ar ôl cwblhau'r **cwrs e-ddysgu**, a gyda goruchwylio parhaus gan gyfreithwyr DPG, yn paratoi llythyrau **"protocol cyn dwyn achos" ffurfiol**. Mae hyn yn golygu os nad yw'r llywodraeth genedlaethol / leol yn gwyrdroi eu penderfyniad ar ôl derbyn y llythyr, y gellir cychwyn achos heb gyfeiriad pellach. O ganlyniad, mae llywodraethau'n cymryd sylw o'r llythyrau hyn.

Mae'r Protocolau wedi'u paratoi mewn fformat hawdd ei addasu. Mae'r cynllun yn dibynnu ar **weithwyr llinell flaen yn cwblhau'r llythyrau cynsail**, y gallant ei wneud o'u gwybodaeth am amgylchiadau'r cleient, yna bydd **cyfreithwyr DPG yn gwirio ac yn goruchwylio'r llythyrau cyn eu hanfon i wneud yn siŵr eu bod yn gywir yn gyfreithiol**. Mewn achosion prin pan nad yw'r llythyrau hyn yn arwain at wyrdroi penderfyniadau, bydd DPG yn cynorthwyo i ddod o hyd i gyfreithiwr cymorth cyfreithiol i gymryd yr achosion.

Ewch i wefan y Prosiect PAP i wylio fideo byr am y prosiect a gwerthusiad annibynnol ohono.

Daw'r dyfyniadau canlynol o'r gwerthusiad annibynnol:

> "Mewn amser byr mae prosiect PAP wedi ei sefydlu ei hun fel ffordd arloesol ac effeithiol o fynd i'r afael ag un o'r heriau allweddol i fudwyr a'r sefydliadau hynny sy'n eu cynorthwyo – diffyg mynediad at gyngor cyfreithiol ansawdd uchel."

> "Gan adeiladu ar ddealltwriaeth gadarn o realiti dydd i ddydd bywyd mudwyr a'r ffordd mae sefydliadau llinell flaen yn gweithio… mae'n dod â chryfderau'r sefydliadau llinell flaen - ymroddiad a sgiliau eu gweithwyr a'r mynediad sydd ganddynt at gleientiaid - ynghyd ag arbenigedd cyfreithiol DPG."

"Yn ogystal â helpu nifer sylweddol o gleientiaid y sefydliadau llinell flaen i gael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, mae'r prosiect wedi rhoi hwb defnyddiol i'r gweithwyr llinell flaen. Mae'r amgylchedd y mae'r bobl hyn yn darparu cyngor ynddo'n heriol gydag adrannau llywodraeth yn parhau i osod rhwystrau yn llwybr y mudwyr sy'n ceisio cyrchu gwasanaethau.  Mae'r prosiect wedi rhoi offeryn newydd i'r gweithwyr hyn ei ddefnyddio ar ran eu cleientiaid – yn bennaf oll mae wedi eu grymuso i fod yn rhagweithiol a sicrhau newid cadarnhaol."

## Cofrestru ar y prosiect

Mae DPG Law yn cynghori bod yr e-ddysgu'n cymryd tua phum awr i'w gwblhau a gellir ei wneud dros gyfnod o bedair wythnos. Caiff y dysgu ei rannu'n gyrsiau gwahanol, ac mae gan bob cwrs fodiwl asesu ar y diwedd i sicrhau bod y materion yn cael eu deall. Unwaith y bydd y cwrs e-ddysgu wedi'i gwblhau, gellir lawrlwytho'r llythyrau cynsail, a bydd y gweithwyr llinell flaen yn gallu paratoi'r llythyrau a'u hanfon drwy ebost at gyfreithiwr DPG i'w gwirio cyn eu hanfon. Bydd cyfreithwyr DPG yn gwirio ac yn goruchwylio o fewn ychydig oriau, neu mewn achosion brys, yn gynt.

Does dim cyfyngiad ar y nifer o staff o bob sefydliad a all gyrchu'r hyfforddiant e-ddysgu, ond rhaid i'r rheolwr gwasanaeth gytuno ar y cofrestru.

Gall staff gofrestru'n uniongyrchol drwy'r ddolen ar wefan Prosiect PAP.

Os ydych chi'n aelod o Cymorth i Ferched Cymru, gofynnwn i chi ebostio membership@welshwomensaid.org.uk i gofrestru er mwyn i ni allu eich cynorthwyo gyda'r broses.